**EITEM AR GYFER YR AGENDA: 14**

**GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**ADRODDIAD AR GYFER PANEL GWEITHREDOL YR AWDURDOD TÂN**

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 31ain Ionawr 2005 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Polisïau Disgyblu, Cwynion a Galluogrwydd newydd |

1. **CYFLWYNIAD**

1.1 Cyhoeddodd Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog (yr ODPM) Gylchlythyr 39/2004 ar 27ain Medi, 2004 i roi gwybodaeth am gael gwared ar Reoliadau (Disgyblu) y Gwasanaeth Tân 1985, a chyfarwyddyd ar y camau i'w cymryd unwaith y byddai Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 yn dod i rym. Hefyd, roedd Cylchlythyr 39/2004 yn argymell y dylid rhoi ystyriaeth i gynnwys pob gweithiwr o fewn yr un gweithdrefnau wrth gyflwyno gweithdrefnau disgyblu newydd er mwyn sicrhau bod pob aelod o staff yn cael eu trin yn gyfartal.

1.2 Daeth Deddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i rym ar 10fed Tachwedd, 2004. Un o effeithiau'r Ddeddf hon yw ei bod yn diddymu Adran 17 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân 1947, sef yr adran yr oedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol bŵer i wneud rheoliadau ar gyfer cadw disgyblaeth ac ar gyfer apeliadau yn erbyn diswyddiadau a chamau disgyblu eraill.

1.3 Mae Fframwaith Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru yn ei gwneud yn glir y dylai Awdurdodau Tân ac Achub gyflwyno gweithdrefnau disgyblu a chwynion yn seiliedig ar gyfarwyddyd arferion da y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS).

### *Disgyblu*

***6.23 Dilëwyd Rheoliadau (Disgyblu) y Gwasanaethau Tân 1985 wrth ddiddymu Deddf y Gwasanaeth Tân gyda Ddeddf 2004. Dylai gwasanaethau tân ac achub nawr weithredu gweithdrefnau disgyblu sy'n seiliedig ar gyfarwyddyd arferion da y Gwasanaeth Cynghori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS).*** (Allan o Fframwaith Drafft y Gwasanaeth Tân ac Achub ar gyfer Cymru)
(cyfieithiad answyddogol am y tro)

1.4 O'r 10fed Tachwedd 2004 ymlaen dilëwyd Rheoliadau (Disgyblu) y Gwasanaethau Tân 1985 yng Nghymru. Fodd bynnag, oherwydd y graddfeydd amser heriol ar gyfer sefydlu'r gweithdrefnau newydd o fewn y Gwasanaethau Tân ac Achub, mae'r Cyd-Gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub Llywodraeth Leol (NJC) wedi cytuno mai'r dyddiad i'r gweithdrefnau disgyblu a chwynion newydd ddod i rym fyddai 1af Ionawr 2005, ac y byddai'r mesurau presennol yn aros mewn lle tan y dyddiad hwn.

1. **<u>CYFLWYNIAD</u>** *(parhad)*

1.5 Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r Gwasanaeth wedi llunio Polisïau Disgyblu, Cwynion a Galluogrwydd drafft newydd, sy'n seiliedig ar Gôd Ymarfer ACAS (ynghlwm fel Atodiadau 1, 2 a 3). Tynnir sylw'r aelodau at y ffaith fod y polisïau drafft hyn wedi cael eu llunio mewn ymgynghoriad â'r ddau Wasanaeth Tân ac Achub arall yng Nghymru a'u bod yn ymorol am bob categori staff, yn groes i'r trefniadau blaenorol.

1.6 Er bod y gofyniad i sefydlu Polisïau Disgyblu a Chwynion ymhlyg o fewn y Cytundeb cyflog a moderneiddio, mae'r cyfle wedi codi hefyd i lunio Polisi Galluogrwydd sy'n darparu eglurhad i reolwyr a gweithwyr am y broses sydd i'w mabwysiadu wrth ymdrin â materion sy'n ymwneud â pherfformiad yn y gwaith, sgiliau, addasrwydd ac iechyd. Mae polisi o'r fath yn caniatáu ffordd deg a thryloyw o fynd ati wrth ymdrin â materion o'r fath, lle yn y gorffennol roedd perygl bod mesurau ad hoc ac anghyson, y gellid o'r herwydd, gael ei ystyried yn anghyfartal ac annheg. Felly, mae'r Polisi Galluogrwydd newydd hwn yn welliant pellach ac wedi ei fwriadu fel fframwaith ar gyfer y cyflogwr (trwy reolwyr llinell) a gweithwyr i gyfeirio ato.

1.7 Ymgynghorwyd â phob undeb llafur a gydnabyddir gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru ac maent yn cytuno â'r gweithdrefnau sydd yn y polisïau newydd hyn. Mae ACAS wedi gofyn am ymrwymiad, i'w lunio ganddyn nhw a'i lofnodi gan bob un o'r undebau llafur cydnabyddedig a'r Dirprwy Brif Swyddog Tân fel tystiolaeth o gydweithio.

1.8 Mae'r tri pholisi wedi cael eu llunio i fod yn gyson gyda'r Llyfr Llwyd newydd, llawlyfr ACAS ac i gynorthwyo'r Awdurdod i ateb ei rwymedigaethau cyfreithiol dan Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996. Mae'r tri pholisi'n gwneud y defnydd gorau o'r hyfforddiant proffesiynol a lefelau uchel o gymhwysedd rheolwyr y Gwasanaeth Tân ac Achub ar bob lefel wrth ymdrin â lefelau o gefnogaeth, gwrandawiad ac apêl ynghylch materion yn ymwneud â disgyblu, cwynion a chymhwysedd. Bydd yr aelodau'n nodi bod, o fewn y gweithdrefnau newydd, newid mewn cyfrifoldebau yn cael ei gynnig ar gyfer Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân o ran gwrando ar apeliadau. Ymgynghorwyd yn llawn ar y newidiadau hyn gyda'r cyrff cynrychioliadol a chafwyd cytundeb llwyr.

1.9 Mae diddymu Rheoliadau (Disgyblu) y Gwasanaeth Tân 1985 yn golygu nad oes gan baragraffau 2.3(ii) a 2.3(vii) o gylch gwaith Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân unrhyw ystyr. Hefyd, mae newid arfaethedig yng nghyfrifoldebau Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân o fewn y gweithdrefnau newydd i'r hyn sydd ym mharagraff 2.3 (viii) o'r cylch gwaith y cyfeiriwyd ato. Mae angen i unrhyw newidiadau i gylch gwaith Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân gael eu cadarnhau gan yr Awdurdod Tân llawn a byddant yn destun adroddiad yng nghyfarfod nesaf yr Awdurdod Tân llawn.

1. **CYFLWYNIAD** *(parhad)*

1.10 Bydd yr aelodau'n nodi bod y polisïau newydd hyn yn berthnasol i'r holl staff yng Ngwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru a bod y swyddogion o fewn yr awdurdod wedi cael eu dynodi i ymdrin â materion sy'n ymwneud â disgyblu, cwynion a galluogrwydd. Er mwyn dechrau paratoi'r rheolwyr yn y gweithdrefnau newydd, mae rhaglen hyfforddiant a datblygu eisoes wedi dechrau, a bydd rhagor o hyfforddiant yn cael ei roi i'r gweithwyr dros 4 diwrnod ym mis Chwefror gydag ACAS, sydd wedi derbyn y dogfennau hyn ac fydd yn eu defnyddio fel patrwm ar gyfer hyfforddiant. Yn ddibynnol ar benderfyniad yr Awdurdod Tân, bydd rhagor o hyfforddiant gydag ACAS/cyfreithwyr yn cael eu trefnu.

2. **ARGYMHELLIAD**

1. Bod yr Aelodau'n nodi bod effaith cydweithio â'r undebau llafur a hyfforddiant ACAS ar y polisïau hyn yn dangos ymroddiad Awdurdod Tân Gogledd Cymru i ymgynghori'n effeithiol.
2. Bod yr Aelodau'n nodi y cafwyd cytundeb yr undebau llafur cydnabyddedig ar y polisïau hyn.
3. Bod yr Aelodau'n cytuno ar y1af Chwefror 2005 fel y dyddiad i roi'r Polisïau Disgyblu, Cwynion a Galluogrwydd ar waith.
4. Bod yr Aelodau'n nodi y darparir adroddiad i'r Awdurdod Tân ym mis Mawrth ar y newidiadau i gylch gwaith y Panel Gweithredol o'r herwydd.